

NEWYDDION ...

BRECWAST GYDA SIÔN CORN

Mae Siôn Corn yn dod drwy Ddolwyddelan ar ddydd Sadwrn y 12fed o Ragfyr!



Gan y bydd o yma rhwng 9.30 ac 11.00 y bore, mae aelodau **Eglwys Sant Gwyddelan** yn paratoi brecwast iddo fo - a'i geirw os bydd rhaid - yn y Pafiliwn.

Dyma wahoddiad felly i blant Dolwyddelan ddod i'r Pafiliwn am 9.30 i gyfarfod Siôn Corn a chael brecwast efo fo.



Bydd angen dweud wrth Lynette neu Caroline os ydach chi am ddod - er mwyn iddyn nhw drefnu bod Siôn yn dod ag anrheg i bawb.

I roi enwau ac oed y rhai ifanc sydd am ddod, ffoniwch neu anfonwch tecst at **Lynette** ar **07719 546 204** neu ffoniwch **Caroline** ar **01690 750 012**. Mae'n rhaid i'r rhai ifanc ddod gydag oedolyn fydd yn gyfrifol amdanyn nhw yn ystod y brecwast.

Mae Siôn Corn a ninnau'n edrych ymlaen at eich gweld chi yno.



**Mae pawb ym Menter Siabod yn dymuno
Nadolig Llawen ac Iach**

a

**Blwyddyn Newydd Dda a Llewyrchus
i bob un o'n darllenwyr**

